Sut mae'r broses yn gweithio

Pan gomisiynir cwmni cynhyrchu gan S4C drwy broses gomisiynu Cwmwl, dylent gysylltu â thîm albert yn Bafta i ddechrau'r broses ardystio cyn gynted â phosibl. Yna byddant yn cael eu paru â chynghorydd albert.

Bydd y cynghorydd yn mynd drwy restr o gwestiynau'n seiliedig ar *genre* y rhaglen, a bydd yn argymell ymhle y gellir ymgorffori cynaliadwyedd. Bydd hyn wedyn yn ffurfio cynllun gweithredu cynaliadwy'r cynhyrchiad.

Mae'r cwestiynau a'r argymhellion ar gyfer y cynllun gweithredu wedi'u teilwra o amgylch y *genre* a'r math o raglen. Bydd rhai yn orfodol ar gyfer bob cynhyrchiad sy'n dymuno cael ardystiad, megis bod ag uwch arweinydd yn gyfrifol am gynaliadwyedd, cynnwys pob cyflenwr yn y broses, cyhoeddi memo gwyrdd i gyfleu'r cynlluniau i bawb sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwrthbwyso carbon, naill ai drwy Gynllun Gwrthbwyso Creadigol albert neu gynllun gwrthbwyso arall.

Ni fydd pob un o'r argymhellion yn orfodol, a byddant yn benodol ar gyfer y math o raglen sy'n cael ei gwneud. Er enghraifft, ar gyfer rhaglenni ffeithiol gall hyn gynnwys edrych ar effaith amgylcheddol teithio fel osgoi hedfan lle bynnag y bo modd neu ddefnyddio ceir allyriadau isel a thacsis fel yr opsiwn diofyn. Ar gyfer drama gyda chyllideb fawr bydd llawer mwy o gyfleoedd i weithredu, o ddefnyddio goleuadau ynni isel i chwilio am ddewisiadau amgen i eneraduron diesel, dewis arlwyo effaith isel neu opsiynau mwy cynaliadwy ar gyfer gwisgoedd a cholur. Bydd yr hyn sy'n gyraeddadwy neu beidio'n cael ei drafod yn llawn, ac nid oes angen gweithredu ar bob argymhelliad er mwyn sicrhau ardystiad.

Gellir dod o hyd i ganllawiau arfer gorau, astudiaethau achos ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwneud cynyrchiadau'n gynaliadwy ar wefan albert (wearealbert.org), ynghyd â gwybodaeth am sut i ddogfennu a dangos tystiolaeth o gynaliadwyedd o fewn cynhyrchiad. Bydd y cynghorydd albert yn arwain cynyrchiadau drwy'r broses asesu ac yn rhoi gwybod iddynt pryd a sut i uwchlwytho tystiolaeth o'u gweithredoedd cynaliadwy.

Bydd cynyrchiadau'n cael eu hasesu ar faint o'r camau y cytunwyd arnynt sydd wedi'u rhoi ar waith a lefel y cynaliadwyedd a gyflawnwyd. Mae lefel y cynaliadwyedd yn cael ei nodi gan y sgôr seren a ddyfernir (rhwng un a thair seren).

Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, darperir logo cynaliadwyedd albert i'r cynhyrchiad ei ddefnyddio yn eu cydnabyddiaethau ar ddiwedd y rhaglen. Mae albert yn gweithio i wneud y system hon mor hawdd ei defnyddio â phosibl ar gyfer cynyrchiadau.

Er mwyn i S4C allu cofnodi pa raglenni sydd wedi sicrhau ardystiad albert, rhaid i gynyrchiadau anfon eu e-bost ardystio albert o fewn pythefnos i ddarlledu'r rhaglen, neu cyn gynted â phosibl cyn hynny at mb@s4c.cymru